

PWYLLGOR DATHLU ACHUB LLANGYNDEYRN A CHWM GWENDRAETH FACH

**Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Nhafarn Y Ffermwyr, Llangydeyrn
24ain o Ionawr 2012 am 7.30 y.h.**

Presennol	Diana Thomas-Laidlaw (Ysgrifenyddes) John Thomas (Cyd-gadeirydd) David Thomas (Cyd-gadeirydd) Christopher Smith (Trysorydd) Tyssul Evans (Cynghorwr Sir) David Saywell (Menter Cwm Gwendraeth) Meinir Griffiths (Menter Cwm Gwendraeth)	Mary Pugh Einir Griffiths Brendan Griffiths Hugh Williams Rob Thomas Gwydion Wynne Marc Jones Ian Jones Peter Jones
Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Arwyn Richards Ann Richards Thomas	

	Gweithredu
<p>MATERION YN CODI AC AGENDA.</p> <ol style="list-style-type: none">1. Gwnaeth John Thomas groesawi pawb i'r cyfarfod.2. <u>Cywirdeb Cofnodion y cyfarfod blaenorol (15.11.2011)</u> Cadarnhawyd fod pawb wedi derbyn y copiau o gofnodion y cyfarfod blaenorol (15.11.2011) a ddanfonwyd allan trwy e.bost gan Diana. Gwnaeth John Thomas a Diana Thomas-Laidlaw ddarllen drwy'r cofnodion eto. Cynnigiwyd ac eiliwyd eu bod yn gywir.3. <u>Cyflwyno Prif Bwyntiau Cyfansoddiad y Pwyllgor Dathlu Achub Llangydeyrn a Chwm Gwendraeth Fach.</u> Gwnaeth John Thomas a David Saywell gyflwyno prif bwyntiau'r Cyfansoddiad a luniwyd mewn cyfarfod yn Y Berllan, Llangydeyrn (20.12.2011 – Diana Thomas-Laidlaw, John Thomas, David Thomas, Rob Thomas a David Saywell yn bresennol.) Cytunwyd y bydd Diana Thomas-Laidlaw yn danfon copiau o'r cyfansoddiad trwy e.bost i bawb sy'n bresennol heno.4. <u>Agor y Cyfrif Banc.</u> Heb agor y cyfrif banc eto. Mae David Thomas wedi gofyn am gael telerau bancio ffafriol wrth "Lloyds T.S.B." (cael bancio am ddim, a rhodd ariannol wrth y Banc.) Rheolwr a chlerc y banc uchod heb gadarnhau hyn eto. Nododd John Thomas bod y	D.M.T.L.

Pwyllgor Lles wedi cytuno i roi benthyciad o £200 i'r Pwyllgor Dathlu, a bod rhai unigolion arall wedi cytuno i roi rhodd ariannol hefyd. Bydd Christopher Smith yn adrodd nol yn y cyfarfod nesaf i son am y datblygiadau.

C.S.

5. Sicrhau caniatad swyddogol i gael defnyddio Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn.

Gwnaeth Diana Thomas-Laidlaw gadarnhau ei bod wedi ysgrifennu at Mrs. Gwen Jones i ofyn am y caniatad uchod, a'i bod wedi derbyn ateb wrth Mrs. Jones yn cadarnhau y gallwn ddefnyddio'r Neuadd yn ddi-dal yn ystod misoedd yr haf, ac ar gost o £5 yr awr (am wres a golau) yn ystod misoedd y gaeaf. Nodwyd bod y telerau hyn yn rhai ffafriol, gan taw'r cost arferol am ddefnyddio'r Neuadd ydy £12 yr awr.

6. Adrodd nol wrth yr Is-Bwyllgor Cyhoeddusrwydd:

Nododd Tyssul Evans y pwyntiau canlynol :

* Ei fod wedi cysylltu a Meinir Jones o'r rhaglen "Ffermio", ac iddi ymateb yn gadarnhaol, ac y gallai roi cyhoeddusrwydd i'r dathliad. Nododd bod ei thadcu wedi gwasanaethu ffermwyr yr ardal hon yn yr 1950au.

* Cadarnhaodd Tyssul bod y "Carmarthen Journal" yn barod i osod erthyglau/gwybodaeth/hysbysebion am y dathlu yn y papur ar yr amser priodol.

*Bod Arian Cyfatebol/Match Funding ar gael trwy wneud cais i'r Cyngor Cymuned (trwy gysylltu a Tyssul.) Arian Cyfatebol - 25%.

*Rhaglenni "Wedi 3" a "Wedi 7" wedi dangos diddordeb, ond mae'r rhaglenni yma'n dod i ben ym Mis Mawrth eleni. Einir yn nodi y bydd Tinnopolis yn cymeryd drosodd.

*Cysylltodd Tyssul eto gyda Chyngor Abertawe, ac mae wedi derbyn rhagor o daflenni wrthynt. Trosglwyddwyd rhain i John Thomas.

Nododd Gwydion Wynne y pwyntiau canlynol:

*O safbwynt creu gwefan am y dathliadau, mae'n fwriad ganddo sganio gwahanol ffynonellau, gan gynnwys fideos, a'u dangos ar y wefan. Cysylltiad gyda Gwydion yn yr Archif radio/cyfyngau yn Aberystwyth. Bydd cydweithiwr sydd newydd gael ei benodi yn y Drindod yn medru helpu sefydlu'r wefan.

*Nododd bod A.E.M. ar fin dod i'r Drindod, a bod rhaid rhoi blaenoriaeth ar hyn o bryd i'r sefyllfa honno. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud ar y Logo ar ol ymweliad A.E.M.

G.W.

G.W.

Awgrymodd David Saywell y gellid cysylltu a'r B.B.C. i weld os fyddai diddordeb gyda nhw mewn creu rhaglen i'w darlledu adeg y Dathlu.

Awgrymodd Peter Jones y gellid cysylltu a Sulwyn Thomas, taw gohebu am yr ymgyrch i foddii Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach oedd un o'i brojectau cyntaf.

Awgrymodd Mary Pugh y gellid cysylltu a Hywel Gwynfryn. Bu ef allan yn holi Hugh Williams yn y Neuadd y llynedd.

Mynegwyd bod gan Y Theatr Genedlaethol ddiddordeb . Gallai Hugh Williams efallai fynd fewn i siarad a nhw, ac efallai gallent drefnu perfformiad.

Nodwyd bod Cwmni Theatr Ieuencyd y Sir, sydd ag un cangen ym Mhontyberem wedi mynegi diddordeb mewn llunio perfformiad dan y teitl "Ymgyrch."

7. Adrodd yn ol wrth yr Is-Bwyllgor Gwerthu/Marchnata.

Cyflwynodd Rob y wybodaeth canlynol:

Dyweddodd bod yr Is-Bwyllgor yn dymuno meddwl am nwyddau byddai pobl yn awyddus i'w cadw gyda balchder.

Nododd y byddai angen codi arian i drefnu/archebu'r nwyddau, ac y byddai angen trefnu archebu'r nwyddau a ddewisir yn eithaf cyflym er mwyn eu cael yn barod i'w gwerthu mewn da bryd.

Dyma'r syniadau a drafodwyd gan yr Is-Bwyllgor Gwerth/Marchnata ar 10.1.2012

(Rob Thomas, John Thomas, Mark Jones, Brendan Griffiths yn bresennol.)

Syniadau am nwyddau:

Y syniadau canlynol oedd y rhai mwyaf poblogaidd :

Dechrau gyda'r ddau syniad sydd angen cael eu trefnu'n gyflym (os yw'r Pwyllgor yn cytuno):

*Llyfr atgofion (dwyieithog) gan gynnwys lluniau (hen a newydd), barddoniaeth (e.e. Mererid Hopwood, Dafydd Jones).

*Plant yr ysgol/lleol i drefnu cyfweiliadau – e.e.

Arwyn Richards, Hugh Williams, Meurig Voyle, Basil Phillips, Ronald Smith, Joan Jones, Eila James, Doreen, Harry Lloyd, Maureen Thomas, Glenys Thomas.

*Calendr

Angen 12 llun addas a thymhorol.

Cynnwys dyddiadau cofiadwy o'r frwydr (wedi eu rhestru yn llyfr 'Cloi'r Clwydi') Efallai cynnwys dyddiadau rhai o'r achlysuron sy'n mynd i gael eu trefnu fel rhan o'r dathliadau.

*Comisiynu Artist i dynnu llun o'r pentre. Ocsiwn y llun gwreiddiol yn ystod uchafbwynt y dathliad. Cael nifer fach o brintiau gyda llofnod yr artist i'w gwerthu, a nifer fwy o brintiau (heb eu llofnodi) i'w gwerthu.

*Comisiynu cwmni crochenwaith (e.e. Felingwm) i gynhyrchu un plat mawr sy'n dangos delweddau o'r pentref. Ocsiwn y plat gwreiddiol yn ystod uchafbwynt y dathliad neu mewn noswaith "hog roast." Cynhyrchu nifer o blatiau bach i'w gwerthu.

*Llestri coffaol. Comisiynu cwmni crochenwaith (e.e. Felingwm) i gynhyrchu llestri e.e. cwpanau, platiau.

*Ailbrintio'r llyfr 'Cloi'r Clwydi'.

Rhai gyda Menter Cwm Gwendraeth (17 yn siop y Fenter, ond mae Deris yn meddwl fod yna rhagor gyda hi adref). Yn cael eu gwerthu yn y siop am tua £2.00

yr un. Faint yn ychwanegol fydd eisiau? Oes angen cyhoeddi mwy?

*Pwysau papur o lechen – yr un math a'r rhai a gafodd eu cynhyrchu ym 1983 ond gan hefyd gyfeirio at y dathliad hanner canmlwyddiant.

*Cyllell agor amlen

*Cardiau Nadolig - plant ysgol / plant lleol i'w cynllunio?

*Llyfr cyfeiriadau – gyda'r logo neu'r geiriau o'r garreg goffa

*Dyddiadur - gyda'r logo neu'r geiriau o'r garreg goffa

*Printiau o luniau sydd eisoes wedi cael eu cynhyrchu e.e. teulu John

*Coasters

*Arian coffaol (commemorative coins)

*Place mats gyda delwedd y garreg?

*Biro, pensil, key ring...goodie bags i blant yr Ysgol / blant lleol?

*Bocs/ tin bisgedi gyda delwedd y garreg?

*Tywelion te coffaol (Commemorative tea towels) gyda delweddau'r pentref?

Cafwyd trafodaeth o fanteision ac anfanteision y rhestr gynhwysfawr uchode.e.

*Dyweddodd Gwydion ei fod eisoes wedi siarad gyda Mererid Hopwood, a'i bod hi'n barod i ysgrifennu englynion/barddoniaeth am ddim.

*Nodwyd y byddai angen cynhyrchu'r calendr a'i gael yn barod i'w werthu erbyn Hydref 2012.

*Hugh Williams yn nodi taw teitl tudalen flaen y "Western Mail" rywbryd adeg ymgyrch y boddi ydoedd "The Battle of Llangyndeyrn." (Hugh yn awgrymu efallai y gellid doddi hwn yn y Calendr, neu awgrymodd Brendan yn y Llyfr Atgofion.)

*Nododd David Saywell bod copiau o'r gorffennol o'r "Western Mail" wedi cael eu doddi ar "microfilm", a bod cyn gopiau o'r "Carmarthen Times" a'r "Carmarthen Journal" ar gael ar "microfilm" yn y llyfrgell yng Nghaerfyrddin. Nododd Christopher Smith bod copiau o'r "Herald in Wales" (papur wedi doddi i ben bellach) ar gael ar "microfilm" ac wedi eu rhwymo yn Abertawe.

*Cafwyd trafodaeth o ba artistiaid y gellid eu comisiynu i greu'r llun o'r pentref. Awgrymwyd yr enwau canlynol : Wyn Jenkins (Bro Myrddin gynt) , neu Aneurin Jones. Gwnaeth Mary Pugh ddweud bod Aneurin Jones wedi creu llun o William Thomas a'i fab Dewi Thomas yn aros ger y glwyd (Creu'r llun o ffotograff), ond ar ol trafod, nid yw'r teulu'n dymuno cael printiau o hwn wedi eu cynhyrchu.

*Nodwyd bod angen torri nol ar hyd y rhestr o nwyddau coffaol y gellid eu cynhyrchu. Nodwyd y dylid cael amcangyfrif o faint fyddai'r gost i'w cynhyrchu, e.e. faint fyddai'n gosti i gynhyrchu Llyfr Atgofion ac ati. Gwnaeth Meinir

Griffiths son y gellid gwneud cais am gyllid drwy'r rhaglen "Dathlu Diwylliant." Nodwyd y gellid gwneud cais i'r Cyngor Cymuned/Arian Cyfatebol.

*Cynnigiodd Brendan Griffiths y dylai'r Is-Bwyllgor Gwerthu/Marchnata dynnu'r rhestr fer, gan adrodd nol yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Dathlu. Cytunwyd ar hyn. Cafwyd cytundeb cyffredinol hefyd bod Comisiynu Llun, cynhyrchu Calendr, cynhyrchu cwpanau coffaol yn syniad da. Nodwyd gan Christopher Smith taw cant yn unig o'r Pwysau Papur o lechen a werthwyd adeg y dathliad pum mlynedd ar hugain.

R.T.
B.G.
J.T.
M.J.

8. Adrodd yn ol wrth yr Is-Bwyllgor "Trefnu Gweithgareddau a Chodi Arian yn Lleol."

Gwnaeth Einir Griffiths adrodd yn ol ar ran yr Is-Bwyllgor hwn. Gwnaethant gwrdd ar 19.1. 2012, ac roedd y canlynol yn bresennol: Elin Jones, Linda Smith, Anna Elias, Linda Thomas, Mary Pugh, Karen Jones, Einir Griffiths. Dyma'r awgrymiadau:

* 2.3.2012 - codi ymwybyddiaeth a lawnsio amserlen gweithgareddau ar y Noson "Cawl a Chan".

* 28.4.2012 – Noson "Gaws a Gwin" – gyda Hugh Williams ac Arwyn Richards i adrodd hanes brwydr y boddi.

* 13.7.2012 – Helfa Drysor.

* Hydref 2012 – Noson o Adloniant yn Nhafarn Y Gof gyda Dafydd Evans.

* Gaeaf 2012 – cwis yn Nhafarn Y Ffermwyr yn gysylltiedig a'r ymgyrch i achub y cwm.

Syniadau eraill:

*Taith feicio nodedig o Dryweryn i Langyndeyrn i godi sylw S4C. Mynd heibio Clywedog a Briane.

*Gyrfa Chwist.

*Ras Bramiau neu Rholio Casgenni

*Cynnal rhyw weithgaredd adeg goleuo'r Goeden Nadolig

Cafwyd yr awgrymiadau yma ar gyfer 2013 :

*Mosaic – cynnal gweithdy wythnosol i blant y pentref er mwyn creu mosaic i'w arddangos yn barhaol o gwmpas ardal y Neuadd. (Mae gan Elin Jones wybodaeth pellach am hyn. Brian Thomas, Darlithydd Celf yng Ngholeg y Drindod sydd wedi trefnu llawer o'r Mosaics yn yr ardal hon.)

*Haf – 2013 – Taith gerdded nodedig o amgylch y safle lle y bwriadwyd codi'r wal ar gyfer y gronfa ddwr.

*Haf – 2013 – Carnifal.

*Hydref – 2013 – Cyngerdd Mawreddog i'w gynnal mewn Marquee yn y parc-Dafydd Iwan, Gwenda a Geinor ac artistiaid eraill.

*Hydref – 2013 – Cwrdd Diolchgarwch. Gwahodd "dechrau Canu Dechrau Canmol" i ffilmio.

*Hydref – 2013 – Pasiant y Plant (Gwenda Owen/ Arwel John)

*Hydref – 2013 – Te Parti a Chacen yn y Marquee gyda thema'r 60'au. Gwahodd aelodau'r Pwyllgor gwreiddiol a chael aduniad i gyn-drigolion a chyn-ddisgyblion y pentref/ysgol.

*Hydref – 2013 – Noson Gala/Tei Ddu yn y Marquee gydag arlwyfaeth e.e. Cegin Fach y Wlad, a cherddoriaeth gan Neil Rosser a'r Band.

Syniadau Eraill:

*Ail actio'r daith brotest trwy dref Caerfyrddin.

*Drama – “Dal Ein Tir.”

*Cysylltu ag Arwel John ynglyn ag ysgrifennu can.

*Arddangosfa o hen arteffactau o'r pentref, arddangosfa hen luniau yn y Neuadd, a sioe hen beiriannau yn y parc.

Cafwyd trafodaeth o'r pwyntiau uchod.

Cytunwyd y dylid trefnu rhai o'r gweithgareddau yn y flwyddyn 2013 ar yr un dyddiad a'r digwyddiadau pwysig o'r flwyddyn 1963.

Awgrymodd Einir Griffiths y dylai'r Is-Bwyllgor Gweithgareddau wneud rhestr fer o'r gweithgareddau y dylid eu trefnu ar gyfer y dathlu, gan adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

**E.J. , L.S.
A.R.T. , A.E.
L.T. , M.P. ,
E.G.**

9. Meinir Griffiths – Menter Cwm Gwendraeth yn rhoi manylion am y grantiau sydd ar gael.

Mae prosiect newydd ar gael ar gyfer ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin- “Datblygu a Hyrwyddo Treftadaeth a Diwylliant Lleol.”

Nid yw'r prosiect hwn yn talu ymlaellow, talu yn ol ar y diwedd yw ei dull gweithredu. Rhaid gwneud y cais 6 mis ymlaenllaw. Bydd y prosiect yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2013, felly- Ebrill 2013 yw'r dyddiad olaf i wneud cais. Gall y cais fod yn gysylltiedig a'r meysydd canlynol : Diwylliant, Celfyddydau, Perfformio, Llenyddiaeth, Gwyliau, Hanes a Threftadaeth. Gellir gwneud cais ar gyfer gweithgareddau ar gyfer plant ac oedolion. Uchafswm y grant a roddir ydy £5000.

Medrir gwneud cais am 100% o'r cyllid, nid Arian Cyfatebol ydyw. Gellir gwneud cais am yr Wyl gyfan, neu am un neu ddau o ddigwyddiadau.

Bydd ceisiadau yn mynd gerbron dau banel, a bydd angen llythyron o gefnogaeth o'r ardal. Rhaid gwneud y ceisiadau trwy Meinir yn y Fenter.

Awgrymodd Brendan Griffiths y dylai'r Is-Bwyllgor Gweithgareddau ddod nol a'r rhestr Gweithgareddau ar gyfer y Dathlu, ynghyd a'r dyddiadau penodedig, ac yna y dylid gwneud ceisiadau am y grantiau'n syth.

Trosglwyddodd Meinir Griffiths daflen am y rhaglen “Dathlu Diwylliant” i Diana Thomas-Laidlaw.

Dywedodd David Saywell ei fod yn falch gweld ein bod yn gwneud ymdrech i ddenu'r di-Gymraeg fewn i'r dathliadau hefyd.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf :

Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar Nos Iau 23ain o Chwefror 2012 am 7.30 y.h. yn Nhafarn Y Gof, Llangyndeyrn.

11. Bydd copi Saesneg o'r munudau hyn ar gael yn y cyfarfod nesaf i'r rhai fydd yn awyddus i'w derbyn.

Diana Thomas-Laidlaw (Ysgrifenyddes y Pwyllgor Dathlu Achub Llangydeyrn a Chwm Gwendraeth Fach)
